

Digimap for Schools

Telesgop Hud

Paula Owens

Adnodd Dysgu Daearyddiaeth Cyfnod Allweddol 1-2



Dyma un o gyfres o adnoddau dysgu i'w defnyddio gyda Digimap for Schools. Cewch ragor o wybodaeth am y gwasanaeth hwn yn <http://digimapforschools.edina.ac.uk>

Digimap for Schools

<http://digimapforschools.edina.ac.uk>

Digimap ar gyfer Adnoddau Daeryddiaeth Ysgolion

Canllaw i athrawon yw'r adnoddau hyn i ddangos i'r dosbarth cyfan neu i gyfarwyddo myfyrwyr unigol yn ôl y galw. Mae pob gweithgaredd yn cynnwys nifer o syniadau y gallwch eu teilwra i gwrdd ag anghenion eich dosbarth a'ch disgyblion. Mae rhai adnoddau'n cynnwys taflenni gwaith i'w dosbarthu'n uniongyrchol i'r disgyblion.

Teitl: Telesgop Hud

Lefel	Cyd-destun	Lleoliad
Cyfnod Allweddol 1-2	Darllen nodweddion map	Unrhyw le ym Mhrydain Fawr

Gwybodaeth	Darllen a dehongli nodweddion map. Defnyddio'r offeryn closio at ardal. Tynnu ardal siâp penodol. Gosod labeli.
Cysylltu â'r cwricwlwm (Lloegr)	Disgrifio a deall agweddau allweddol ar ddaeryddiaeth ffisegol a dynol, defnyddio mapiau a mapio digidol i ddod o hyd i nodweddion a'u disgrifio.
Cysylltu â'r cwricwlwm (Cymru)	Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd: Disgyblion yn dechrau adnabod gwahaniaethau rhwng eu hardal leol eu hunain, cymdogaethau mewn rhannau eraill o Gymru a'r byd; dysgu sut a pham mae yna gysylltiadau rhwng gwahanol leoedd. Daearyddiaeth: defnyddio mapiau i gymharu ac i wrthgyferbynnu rhwng lleoedd.
Cwricwlwm yr Alban dros Ragoriaeth	Deilliannau Astudiaethau Cymdeithasol: Pobl, Lle a'r Amgylchedd: 2-13a, 2-14a

Gweithgaredd

Y disgyblion i dynnu ardal fach iawn i'w harchwilio gan ddefnyddio map amlinell graddfa fach o Brydain Fawr, heb wybod pa fath o le byddant yn dod ar ei draws tan iddynt glosio. Pan maen nhw'n gwneud hynny, rhaid iddynt ddefnyddio nodweddion y dirwedd fel cliw i ddyfalu beth mae pobl, o bosibl, yn gwneud yno, ac yna ychwanegu labeli at y map.

Cyflwyniad

Pan fyddwch yn agor *Digimap for Schools* am y tro cyntaf, map o amlinell Prydain Fawr sy'n ymddangos. Ar y raddfa hon nid oes llawer o nodweddion wedi'u marcio ar y map, ar wahân i ranbarthau o dir uchel, sydd wedi'u lliwio'n frown.

Digimap for Schools

<http://digimapforschools.edina.ac.uk>

Wrth i chi glosio at y map, mae'r nodweddion yn dod yn fwy amlwg tan eich bod yn cyrraedd y lefel closio lawn, sef cynnyrch data Arolwg Ordnans 'OS MasterMap® Topography Layer', sy'n datgelu llawer o fanylion am leoedd. Yr hyn sy'n bwysig yw bod y disgyblion yn sylweddoli sut mae'r manylion yn cynyddu wrth symud o olygfa graddfa fach i olygfa graddfa fawr ('wedi closio'n llawn') a sut gall hyn roi gwybodaeth i ni am leoedd gwahanol a beth mae'r bobl sy'n byw yno, o bosibl, yn ei wneud.


Prif weithgaredd

Esboniwrch fod y disgyblion yn mynd i ddefnyddio telesgop hud ar fap Prydain Fawr i glosio i mewn at le penodol a gweld sut fath o le sydd yno. Ond rhaid iddynt wneud y telesgop hud yn gyntaf, cyn gallu gweld trwyddo. Gall y disgyblion weithio fel unigolion neu mewn parau. Gallech herio'r disgyblion i weld pwy sy'n gallu darganfod y mwyaf o bethau.

Tasgau

Agorwch *Digimap for Schools*. Esboniwrch nad yw'r map sy'n cael ei ddangos yn cynnwys llawer o fanylion a thrafodwch yr hyn mae'r map yn ei ddangos. Mae'r disgyblion yn gallu dewis unrhyw le ar y map o Brydain Fawr i ffocysu eu telesgopau.

1. Gwneud telesgop. Agorwch y bar offer nodiadau (*Annotations Toolbar*) a dewis 'Draw fixed shape area' a 'circle'. Sicrhewch fod y tryloywder yn 100%.



2. Dewiswch eich lleoliad ar fap Prydain Fawr ac, yn ofalus iawn, tapiwch y pwynt yn ysgafn unwaith gan ddefnyddio'ch llygoden. Dylech fod yn gallu gweld smotyn bach iawn ar y map. Os ydych yn gallu gweld smotyn mawr, bydd angen i chi ei ddileu a cheisio eto. Caewch y bar offer nodiadau (*Annotations Toolbar*) ar ôl i chi orffen.

Mae modd i'r disgyblion weld yr hyn sy'n digwydd pan maen nhw'n tynnu cylch mawr a pha mor anodd yw hi i glosio i mewn yn bell heb golli golwg o amlinell y cylch.


3. Dewiswch o'r bar offer a chliciwch ar y smotyn yr ydych newydd ei lunio. Ailadroddwch hyn tan fod eich cylch yn llenwi'r sgrin, Fel arall, defnyddiwch y bar closio.
4. Bydd eich lle dirgel yn cael ei ddatgelu. Ble mae ef? Pa fath o le yw ef? Beth allwch chi ei wneud yna? Defnyddiwch gliwiau'r map ac allwedd y map i ddod o hyd i gymaint o bethau ag y gallwch am yr ardal tu mewn i'ch cylch gan ddefnyddio'ch Telesgop Hud.
5. Ar ôl i chi archwilio'r map yn ofalus a chymryd nodiadau, gallwch ychwanegu rhai labeli. Agorwch y bar offer nodiadau (*Annotations Toolbar*) unwaith eto.
 - a. Yn gyntaf, dewiswch ffont, lliw a maint y testun.

Digimap for Schools

<http://digimapforschools.edina.ac.uk>



Wedyn, dewiswch a chlicio ar y map er mwyn agor blwch testun. Ysgrifennwch yr hyn mae pobl yn gallu ei wneud yno ac enwch y nodweddion. Cyfeiriwch at yr enghraifft isod.



Mynd ymhellach

- Heriwch y disgyblion i ddyfalu beth fyddant yn ei weld trwy eu 'telesgopau hud'. Ydyn nhw'n gallu amlygu ardal ddinesig/wledig/arfordirol/fynyddig ac ati gan ddefnyddio'u sgiliau lleoliad ar fap amlinellol? Ydyn nhw'n gallu defnyddio atlas i benderfynu ble i ffocysu? Bydd hynny'n cynorthwyo'r disgyblion i gyfarwyddo â phatrymau mwy ym Mhrydain Fawr, er enghraifft ble mae'r ardaloedd dinesig mawr wedi'u lleoli.
- Cynhaliwch her dosbarth cyfan i weld pwy sy'n dod yn agosach at nodwedd fawr, er enghraifft dinas Caeredin, Afon Tafwys neu'r Wyddfa.

Dolenni

Ben's Magic Telescope – Ilyfrau llun Viking Kestrel gan Brian Patten, Siân Bailey, Peter Bailey
<http://www.waterstones.com/waterstonesweb/products/brian+patten/sian+bailey/peter+bailey/ben27s+magic+telescope/3892976/>



© EDINA ym Mhrifysgol Caeredin 2013

Trwyddedir y gwaith hwn yn unol â Thrwydded Anfasnachol – Prïodoliad Creadigol Cyffredin